

# Bwletin Llythrennedd a Rhifedd

Pwrpas y bwletin hwn yw rhoi gwybod i chi am y datblygiadau diweddaraf ym maes Llythrennedd a Rhifedd ac am adnoddau ar draws pob cyfnod allweddol

Croeso i Fwletin Llythrennedd a Rhifedd GwE! Rydym yn gwybod pa mor brysur yw athrawon dosbarth, felly, rydym wedi mynd trwy'r swmp o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael am y blaenoriaethau cenedlaethol hyn â chrib fân er mwyn gwneud bywyd yn haws! Hyderwn y bydd yn ddefnyddiol i chi a byddem yn croesawu unrhyw adborth fel y gallwn deilwra bwletinau'r dyfodol i fodloni eich anghenion.



Pedwerydd rhifyn Mawrth 2015

## Adnoddau- beth sydd ar gael ar-lein?

### Llythrennedd

#### 'Serennu wrth 'sgrifennu' Canolfan Peniarth

Lansiwyd adnodd newydd ym mis Ionawr ar gyfer ysgolion cynradd i godi safonau ysgrifennu disgyblion Cyfnod Allweddol 2. Gellir defnyddio'r llyfr fflip fel sail gwaith trafod ystod eang o ffurfiau ysgrifennu e.e.pamffledi, llythyron, hysbysebion <http://canolfanpeniarth.org/newyddion?pt=serennu-wrth-sgrifennu-lansio-adnodd-newydd-i-godi-safonau-ysgrifennu-dysgwyr-yng-nghwmni-s-r-s>

#### Blog Bethan Gwanas

Ydych chi wedi ymweld â blog Bethan Gwanas yn ddiweddar? Mae'n llawn gwybodaeth ac adolygiadau hwyliog am lyfrau plant ar gyfer pob oed. <https://gwanas.wordpress.com/>

### Rhifedd

#### Sustrans Cymru [www.sustrans.org.uk/cymru](http://www.sustrans.org.uk/cymru)

Mae gwefan Sustrans yn cynnwys adnoddau dosbarth i gwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Cliciwch ar y ddolen isod am weithgaredd rhifedd blwyddyn 5 a 6 - Beth yw'r ffordd fwyaf diogel i gerdded / beicio i'r ysgol? [http://www.sustrans.org.uk/sites/default/files/images/files/wales/education\\_and\\_young\\_people/Activity\\_2\\_Cym.pdf](http://www.sustrans.org.uk/sites/default/files/images/files/wales/education_and_young_people/Activity_2_Cym.pdf)

#### Crickweb [www.crickweb.co.uk](http://www.crickweb.co.uk)

Mae gwefan Crickweb yn cynnig adnoddau a gemau addysgol yn rhad ac am ddim. Mae gan y ddolen isod i adnoddau rhyngweithiol mathemateg CA2: <http://www.crickweb.co.uk/ks2numeracy.html>

## Beth sy'n newydd ar Dysgu Cymru?



### Y Cyfnod Sylfaen-Ardal tu Allan

Mae Y Camau Cyntaf yn yr Awyr Agored yn ganllaw defnyddiol sydd yn cynorthwyo i ddatblygu manau awyr agored sy'n cyffroi ac yn ysgogi lle gall plant ifanc chwarae, dysgu a thyfu.

<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/141013-first-steps-outdoors-cy.pdf>  
<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/141013-further-steps-outdoors-cy.pdf>

## Cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru

### Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru- Dyfodol Llwyddiannus

Mae'r Athro Donaldson wedi tynnu sylw at gryfderau o fewn system addysg Cymru, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen a'r ymrwymiad i'r Gymraeg a diwylliant Cymru a chred fod modd adeiladu ar y rhain. Mae ei adroddiad hefyd yn cyfeirio at wendidau'r trefniadau presennol o safbwynt y cwricwlwm ac mae wedi llunio cyfres o argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â'r gwendidau hyn a gwella'r modd y caiff plant Cymru eu haddysgu a'u hasesu.

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculumwales/curriculum-for-wales/?lang=cy>

### Profion Cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu canllawiau i rieni / gofaluwr yn esbonio'r profion a sut y bydd y canlyniadau yn cael eu hadrodd. Bydd copïau caled ar gyfer rhieni plant blwyddyn 2 yn unig. Bydd copïau electronig pellach ar gael ar-lein.



GWE(@GwEGogledCymru)

## PROFION LLYTHRENNEDD A RHIFEDD CENEDLAETHOL

**Uwchradd**  
29<sup>ain</sup> o Ebrill – 12<sup>fed</sup> o Fai  
**Cynradd**  
5<sup>ed</sup> o Fai – 12<sup>fed</sup> o Fai

## Hyfforddiant ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

### Ymresymu Rhifyddol – Sesiynau Cefnogi Marcio

#### Uwchradd

Mae NFER wedi ysgrifennu at bob ysgol uwchradd i gynnig sesiynau cefnogi marcio ar gyfer ymresymu rhifyddol blwyddyn 7-9. Bydd yr hyfforddiant rhanbarthol yn cael ei gynnal yn **Venue Cymru, Llandudno ar 13eg o Fai**.

#### Cynradd

Newydd ar gyfer y flwyddyn hon, bydd sesiynau cefnogi marcio ar gyfer ymresymu rhifyddol i ysgolion cynradd. Cynhelir yn lleol, bydd un o'r Partneriaid Cynorthwyo Rhifedd yn cysylltu â chi ar ôl gwyliau'r Pasg gyda manylion. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu cynnal yn syth ar ôl y ffenestr profi. Efallai y bydd ysgolion yn dymuno defnyddio rhan o'u grant cymorth i ryddhau eu cydlynnydd rhifedd i fod yn bresennol.

### Hyfforddiant RhGG

Yn ystod tymor yr haf, bydd y RhGG yn darparu cyfres o weithdai hyfforddi. Bydd manylion yr hyfforddiant yn cael ei rannu drwy eich Partner RhGG. Nodwch i gofrestru ar gyfer y digwyddiadau hyn mae'n rhaid cysylltu â'r RhGG ac nid Gwe.

## Nodyn atgoffa i bob athro/athrawes dosbarth Derbyn

### Pori Drwy Stori

Mae Booktrustcymru wedi cyhoeddi cyfres o naw clip fideo newydd sydd yn dangos amrywiaeth o weithgareddau y gallwch chwarae gyda'r cardiau 'Ble mae'r ddadad?' <http://poridrwystori.booktrust.org.uk/cy/news/13/>

Mae bagiau 'Amser Llyfr' bellach wedi cael eu dosbarthu i ysgolion.

Mae 'Adnoddau Rhifedd' pecyn Tymor 3 yn cefnogi gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.